WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mawrth 2011

**Awdur: Huw Vaughan Thomas** **Cyf: 113A2011**

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2010

# **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Yr adroddiad hwn | 8 |
| **Adran 1: Archwilio Cyfrifon** | |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 9 |
| **Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau** | 13 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd, fel pob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru, yn wynebu heriau ariannol sylweddol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo atgyfnerthu ei drefniadau gwasanaeth, gweithlu gweithredol a chynllunio a monitro ariannol | 13 |
| Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i sicrhau eu bod yn darparu fframwaith sy'n llywio gwella | 15 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth atgyfnerthu 'ffactorau galluogi' pwysig sy'n gallu bod o gymorth o ran gwneud defnydd mwy effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau | 19 |
| Mae gwaith archwilio perfformiad wedi nodi trefniadau derbyniol o ran rheoli rhestrau aros a gwasanaethau arlwyo, gydag elfennau o arfer da, ac er gwaethaf rhywfaint o welliannau, mae angen gwneud mwy i wella gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion | 21 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy llythyr archwilio blynyddol diwethaf | 26 |
| Ffi archwilio | 27 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) ddiwedd 2009 a thrwy gydol 2010.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Cynlluniwyd yr archwiliad gennyf ar sail risg, ac mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar y risgiau ariannol a gweithredol sylweddol y mae'r Bwrdd yn eu hwynebu, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir mwy o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn, a chytunir arnynt, gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Mae angen ystyried y canfyddiadau a nodwyd gennyf yn yr adroddiad hwn yng nghyd-destun y broses ad-drefnu strwythurol fawr sydd wedi digwydd yn GIG Cymru dros y 18 mis diwethaf, a'r rhaglen waith genedlaethol sy'n mynd rhagddi i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, perfformiad cymysg a sefydlogrwydd ariannol. At ei gilydd mae hyn yn cynrychioli agenda newid sylweddol a heriol tu hwnt i'r Bwrdd Iechyd a'i staff.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o feysydd lle mae angen datblygu trefniadau a gwasanaethau ymhellach. Oherwydd graddau'r agenda newid o fewn y GIG, mae'n anochel y bydd llawer o drefniadau corfforaethol a meysydd darparu gwasanaethau o fewn y Bwrdd Iechyd naill ai'n destun adolygiad, neu wrthi'n cael eu newid.
6. Mae'n bwysig y defnyddir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio, y ceir crynodeb ohonynt yn yr adroddiad hwn, fel ysgogiad a ffocws ar gyfer sylw rheolwyr i sicrhau y gweithredir gwelliannau mor gyflym â phosibl lle bo'u hangen.

## Archwilio cyfrifon

**Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny**

7. Drwy fy ngwaith ar archwilio cyfrifon, rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
   - paratowyd cyfrifon y Bwrdd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - llwyddodd y Bwrdd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2009-10, ond dim ond yn sgîl arian untro ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad;
   - roedd gan y Bwrdd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y Datganiadau Ariannol;
   - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad, er bod nifer o wendidau system y mae angen i reolwyr weithredu arnynt.

8. Wrth roi barn ddiamod, rwyf wedi tynnu sylw'r Bwrdd at nifer o faterion. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:
   - cyfeiriad yn fy marn archwilio at gamddatganiad nas addaswyd sy'n ymwneud â chymaryddion agorol oes ddefnyddiol asedau;
   - anallu i gydymffurfio'n llawn â'r safon cyfrifyddu sy'n ymwneud â disodli asedau;
   - yr angen i wneud cynnydd pellach o ran asesu hawliadau gofal iechyd parhaus;
   - gorddatgan rhai o'r amcangyfrifon o wariant ar ofal sylfaenol;
   - nifer o wendidau system y mae angen i reolwyr weithredu arnynt.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**Mae'r Bwrdd, fel pob Bwrdd arall yng Nghymru, yn wynebu heriau ariannol sylweddol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo atgyfnerthu ei drefniadau gwasanaeth, gweithlu gweithredol a chynllunio a monitro ariannol**

9. Mae fframwaith strategol pum mlynedd y Bwrdd yn amlygu'r angen am arbedion o £344.6 miliwn dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2014-15. Ar gyfer 2010-11, roedd y cynllun ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd gyflawni arbedion o £79.3 miliwn er mwyn mantoli'r gyllideb.

10. Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o gyflawni'r cynllun arbedion. Mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyllid ac mae hwn yn ddull da o graffu ar gynlluniau arbedion unigol a herio'r broses o gyflawni'r cynlluniau hynny. Tan yn ddiweddar roedd y Bwrdd wedi bod yn rhagamcan diffyg o £28.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddwyd rhagor o arian ar gyfer pwysau gweithredol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth y Cynulliad ac ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn rhagamcan y bydd yn mantoli'r gyllideb. Er bod

nifer o risgiau'n gysylltiedig â chyflawni cynlluniau arbedion, mae'r rhain yn cael eu rheoli a'u lliniaru.

11. Dros y misoedd i ddod, mae angen cyflawni gwaith pellach i integreiddio cynlluniau gwasanaeth, cynlluniau gweithlu a chynlluniau ariannol. Dylai'r Bwrdd hefyd barhau i sicrhau bod pob cynllun arbedion wedi'i ategu gan gynlluniau gweithredu cadarn ar gyfer cyflawni.

### Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i sicrhau eu bod yn darparu fframwaith sy'n llywio gwella

12. Mae fframwaith strategol pum mlynedd y Bwrdd Iechyd yn nodi cyfeiriad strategol clir, ac ategir hyn gan gynlluniau gweithredol a chynlluniau moderneiddio. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o wrthdaro rhwng cyflawni targedau arbedion a chyflawni amcanion corfforaethol.

13. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu strwythur sefydliadol sy'n cefnogi'r broses o gyflawni ei amcanion strategol er ei fod yn cydnabod, 12 mis ar ôl sefydlu'r sefydliad newydd, bod angen gwneud mwy i roi'r sgiliau a'r adnoddau priodol i staff, gwella cyfathrebu ac egluro rolau a chyfrifoldebau.

14. Mae Bwrdd effeithiol ar waith o fewn Caerdydd a'r Fro a gefnogir gan amryw o bwyllgorau ac is-bwyllgorau, er bod ffocws rhai o'r pwyllgorau yn destun adolygiad.

15. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu fframwaith ar gyfer rheoli risg a weithredir yn 2011/12, a gwnaed cynnydd da i hyrwyddo diwylliant sy'n agored i reoli risg a dysgu gwersi o ddigwyddiadau'r gorffennol.

16. Mae systemau rheolaeth fewnol priodol ar waith y gellid eu hatgyfnerthu drwy ganolbwyntio sylw'r Pwyllgor Archwilio ar feysydd o risg uwch ar ei agendâu a thrwy wella effeithiolrwydd y defnydd o adnoddau ar gyfer archwilio clinigol.

17. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau Rheoli Gwybodaeth cadarn ar y cyfan y gellid eu hatgyfnerthu drwy ail-ganolbwyntio craffu ac ailgyfeirio adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gwybodeg.

18. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu fframwaith rheoli perfformiad cadarn ar draws y sefydliad sy'n cefnogi monitro a chofnodi perfformiad ar bob lefel, ac a danategwyd gan ffocws clir ar ansawdd data.

19. Gan adeiladu ar waith y sefydliadau rhagflaenol, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith er mwyn hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth iddo weithredu ei fusnes.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth atgyfnerthu 'ffactorau galluogi' pwysig sy'n gallu bod o gymorth o ran gwneud defnydd mwy effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau

20. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud dechrau da ar wella cynllunio'r gweithlu drwy osod y seiliau sydd eu hangen arno ar gyfer persbectif strategol clir, a danategwyd gan wybodaeth dda, ac ymgysylltu â staff a sicrhau eu bod yn deall y materion hyn.

21. Bydd asedau cyfalaf yn chwarae rhan hanfodol o ran cyflawni cynllun strategol pum mlynedd y Bwrdd Iechyd, a chymerir camau clir i sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o'r asedau hyn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

22. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod nad oedd gan ei drefniadau caffael y cyfeiriad, yr adnoddau a'r dylanwad i sicrhau y gellid gwireddu'r buddiannau yn llawn ac mae'n rhoi cynlluniau ar waith i wella'r maes hwn o'r busnes.

23. Ar ôl dechrau araf, ceir mwy o eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, cydnabyddiaeth eglur o'u pwysigrwydd o lefel y Prif Weithredwr i lawr, a chynnydd ar agweddau gwahanol ar weithio mewn partneriaeth.

24. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'r ffocws ar ymgysylltu â'r gymuned a chleifion a bu wrthi'n rhoi'r strwythurau a'r prosesau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r materion cysylltiedig.

**Mae gwaith archwilio perfformiad wedi nodi trefniadau derbyniol o ran rheoli rhestrau aros a gwasanaethau arlwyo, gydag elfennau o arfer da, ac er gwaethaf rhywfaint o welliannau, mae angen gwneud mwy i wella gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion**

25. Roedd fy ngwaith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd yn cynnwys adolygiadau o nifer o feysydd penodol o'r gwasanaeth. Gyda'i gilydd mae'r rhain wedi dangos fod y trefniadau yn dderbyniol ar gyfer rheoli rhestrau aros a gwasanaethau arlwyo, a nodwyd elfennau o arfer da, ac er gwaethaf rhai gwelliannau mae angen gwneud mwy i wella gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion. Deuthum i'r casgliad hwn ar ôl gwaith archwilio manwl ar:

- cywirdeb data rhestrau aros;
- gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion;
- arlwyo mewn ysbytai.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

26. Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwyr. Caiff ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 22 Mawrth 2011 a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd.

27. Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

## Yr adroddiad hwn

1. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol o waith archwilio a wnaed rhwng mis Hydref 2009 a mis Tachwedd 2010.
2. Ymgymeraf â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
   a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd;
   b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
   c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
   - canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
   - gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig o'r Bwrdd Iechyd, gan archwilio'r trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu, atebolrwydd a rheoli adnoddau;
   - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
   - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
   - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
4. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.
5. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
   - Archwilio cyfrifon;
   - Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.
6. Yn olaf, mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i wneud fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

7. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2009/10. Mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol drwy'r datganiadau hyn ac yn nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae archwilio datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

## Fy nghyfrifoldebau

8. Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i archwilwyr roi eu barn ar y canlynol:
   - a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
   - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
   - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
   - a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
   - rheoleidd-dra'r gwariant ac incwm.
9. Wrth gyflwyno'r farn hon, mae'n ofynnol i archwilwyr gydymffurfio â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
10. Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
    - amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
    - systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r Datganiadau Ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

11. Cefais y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 ar 14 Mai 2010 yn unol â'r amserlen gytunedig. Paratowyd y datganiadau ariannol drafft i safon dda ac fe'u hategwyd gan bapurau gwaith o ansawdd da.
12. Mae'n ofynnol i mi yn unol â Safonau Archwilio Ryngwladol 260 (ISA 260) gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Mhartner Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd ar 28 Mehefin 2010. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn Adroddiad ISA 260**

| Mater | Sylwadau archwilwyr |
|---|---|
| Gorddatganwyd y balans agoriadol ar gyfer Eiddo, Offer a Chyfarpar gan £4.569 miliwn. | Yn ystod 2008-09, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ragflaenol adolygiad o oes ddefnyddiol asedau a arweiniodd at dâl dibrisio is o £4.569 miliwn. Ym mis Mawrth 2010, dyfarnodd Trysorlys EM nad oedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu'r oes ddefnyddiol newydd yn cydymffurfio ag IAS 16 ac ni ddylid ei defnyddio. Felly dychwelodd y Bwrdd Iechyd i ddefnyddio'r oesau asedau a ragnodwyd gan y Prisiwr Dosbarth a chynyddodd ei daliadau dibrisiant ar gyfer 2009-10 yn unol â hynny.<br>Ni ailddatganwyd y cymaryddion ar gyfer 2008-09 ar sail perthnasedd. O ganlyniad, gwneuthum addasu fy marn drwy ychwanegu nodyn Pwysleisio Mater gan dynnu sylw at y ffaith nad addaswyd y cymaryddion. Nid oedd fy marn yn amodol yn hyn o beth. |
| Ar hyn o bryd ni all y Bwrdd Iechyd gydymffurfio'n llawn â'r safon cyfrifyddu sy'n ymwneud â disodli asedau. | Yn unol â Safon Archwilio Rhyngwladol (IAS) 16, pan gaiff rhannau o asedau eu disodli, mae angen didynnu unrhyw werthoedd sy'n weddill ar gyfer yr asedau a ddisodlwyd o werthoedd yr eiddo (dadgydnabyddedig) gydag unrhyw elw neu golled wedi'i gydnabod yn y cyfrif refeniw.<br>Nid oedd gan y Bwrdd Iechyd y systemau ar waith i gydymffurfio â'r gofynion hyn. Yn ogystal, ym marn Llywodraeth y Cynulliad nid oedd y fethodoleg ailbrisio a ddefnyddiwyd gan y Prisiwr Dosbarth ar gyfer asedau arbenigol yn rhoi prisiad manwl o rannau asedau i alluogi cymhwyso IAS 16 yn briodol.<br>Er bod ein gwaith a'r cynrychioliadau a wnaed gan reolwyr yn rhoi sicrwydd rhesymol i ni nad oedd unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn natganiadau ariannol 2009-10 o ran y mater hwn, mae trafodaethau pellach yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y gofynion wedi'u hegluro ar gyfer 2010-11. |

| Mater | Sylwadau archwilwyr |
|---|---|
| Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud cynnydd pellach o ran yr asesiad o hawliadau gofal iechyd parhaus. | Erys rhwymedigaethau am gostau gofal iechyd parhaus yn broblem ariannol sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. Arweiniodd y terfyn amser o fis Rhagfyr 2009 ar gyfer adennill costau gofal cyn 1 Ebrill 2003 at gynnydd mawr yn nifer yr hawliadau a gofrestrwyd, o ran costau cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2003 fel ei gilydd.<br>Roedd datganiadau ariannol 2009-10 yn cynnwys amcangyfrif costau ar gyfer yr hawliadau ôl-groniad, yn seiliedig ar gyfradd canran llwyddiant awgrymedig ar gyfer hawliadau fel y'i nodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Er bod y dull hwn wedi cynhyrchu amcangyfrif derbyniol, mae angen ei ystyried fel methodoleg interim at ddibenion datganiadau ariannol 2009-10. Dylid nodi hefyd, yn dilyn trafodaethau yn cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth y Cynulliad, y diwygiwyd y datganiadau ariannol drafft i ymgorffori darpariaeth ychwanegol o £1.8 miliwn mewn perthynas â'r elfen ôl 2003 o'r achosion o ôl-groniadau a oedd yn pontio mis Ebrill 2003.<br>Mae angen gwneud rhagor o waith i gynnal momentwm yn y maes hwn a sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o ran asesu effaith ariannol hawliadau nas ymdriniwyd â hwy yn gywir. |
| Gorddatganwyd rhai croniadau gofal sylfaenol | Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd wneud nifer o amcangyfrifon o groniadau gwariant diwedd blwyddyn wrth baratoi'r datganiadau ariannol drafft. Dangosodd gwybodaeth fwy cyfoes fod yr amcangyfrifon gofal sylfaenol wedi'u gorddatgan gan £0.164 miliwn, sy'n cynnwys:<br>• cyffuriau rhagnodedig a chyfarpar, £0.129 miliwn;<br>• gwasanaethau fferyllol, £0.035 miliwn.<br>Ni addaswyd y gwallau hyn nad oeddent yn rhai mân yn y datganiadau ariannol ar sail perthnasedd. |

13. Fel rhan o'n harchwiliad ariannol gwnaethom hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

- O ran ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan y Bwrdd Iechyd, daethom i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2010, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- O ran y Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd, daethom i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn.
- O ran yr archwiliad ar wahan o'r cyfrifon Cronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedaeth, daethom i'r casgliad fod y cyfrifon yn dangos darlun cywir a theg. Bu oedi cyn clirio'r gwaith hwn yn derfynol oherwydd yr angen i gael cymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau i drosglwyddo'r cronfeydd i enw'r Bwrdd Iechyd. Cafwyd y gymeradwyaeth hon ym mis Rhagfyr 2010 a chyhoeddwyd barn archwilio ddiamod ym mis Ionawr 2011.

### Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2009-10, ond dim ond yn sgîl arian untro ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad

14. Cyflawnodd y Bwrdd iechyd ei dargedau ariannol statudol yn 2009-10, ond roedd hyn yn dibynnu ar raglen arbedion sylweddol o £59.7 miliwn a £6.6 miliwn o arian cyflenwi adnoddau refeniw diwedd blwyddyn ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad.

### Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli mewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y Datganiadau Ariannol

15. Diffinnir gwendid perthnasol o ran rheolaeth fewnol fel a ganlyn gan ISA 260 *'...diffyg o ran cynllunio neu weithrediad a allai gael effaith andwyol ar allu'r endid i gofnodi, prosesu, crynhoi a chyflwyno adroddiadau ar ddata ariannol a data perthnasol arall a fyddai'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol*'. Ni nodais unrhyw wendidau o'r fath.
16. Rhoddodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol farn 'Ddigonol' ar reolaeth fewnol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010. Mae'r farn hon yn adlewyrchu system rheolaeth fewnol sy'n gadarn ar y cyfan sydd â graddau eang o gydymffurfiaeth weithredol, ond gyda rhai gwendidau o ran cynllunio a chymhwyso rheolaethau a allai beri risg o ran cyflawni amcanion system penodol.

### Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad, er bod nifer o wendidau system y mae angen i reolwyr weithredu arnynt

17. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn codi o'm gwaith archwilio ariannol, yn cynnwys hawliadau gofal iechyd parhaus a disodli asedau. Nodir y materion hyn yn fy Adroddiad ar y Cyfrifon Ariannol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2010.
18. Gwneuthum hefyd ystyried seilwaith technoleg gwybodaeth y Bwrdd Iechyd sy'n cefnogi'r systemau Oracle FMS, ESR Payroll a Pharmacy. Mae'r rhain yn systemau cenedlaethol a weinyddir ac a gynhelir gan ddarparwr gwasanaeth (gyda'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Patech a McKesson ar gyfer y systemau FMS ac ESR yn y drefn honno ac yn gweithio gydag NWIS ar gyfer y system Pharmacy). Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o'm hadolygiadau, er fy mod wedi gwneud rhai argymhellion ar gyfer gwella, fel y nodwyd yn fy Adroddiad ar y Cyfrifon Ariannol. Derbyniwyd pob un o'm hargymhellion heblaw am un lle roeddem wedi nodi pryderon o ran y ffaith bod y canolfannau data sylfaenol ac eilaidd a ddefnyddir i gadw systemau clinigol ac ariannol mor agos i'w gilydd.Fodd bynnag, bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r trefniadau yn y maes hwn gyda'r nod o ailasesu'r risg a nodi a ellir cymryd unrhyw gamau i'w liniaru.

19. Yn ogystal cyflwynodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adroddiad ar nifer o wendidau system y mae angen i reolwyr weithredu arnynt yn barhaus. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i reolwyr er mwyn atgyfnerthu'r gwendidau rheoli a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, ac mae'r adroddiadau'n destun craffu penodol gan y Pwyllgor Archwilio.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

20. Mae gofyniad statudol arnaf i fod yn fodlon bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. I helpu i fodloni'r gofyniad hwn, cynhaliodd yr archwilwyr 'asesiad strwythuredig' o'r trefniadau corfforaethol perthnasol yn y Bwrdd Iechyd. Mae canfyddiadau'r gwaith hwn wedi ystyried y trefniadau ar gyfer y canlynol:

- rheoli ariannol;
- llywodraethu ac atebolrwydd;
- defnyddio 'ffactorau galluogi' allweddol i ategu'r defnydd o adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

21. Mae'r adran hon o'r adroddiad hefyd yn crynhoi'r canfyddiadau o nifer o adolygiadau archwilio perfformiad penodol a gynhaliwyd gennyf yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf.

### Mae'r Bwrdd Iechyd, fel pob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru, yn wynebu heriau ariannol sylweddol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo atgyfnerthu ei drefniadau gwasanaeth, gweithlu gweithredol a chynllunio a monitro ariannol

22. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae safonau uchel wrth reoli arian yn bwysicach nag erioed. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau archwilwyr ar drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, ac yn ystyried y canlynol:

- trefniadau cynllunio ariannol;
- trefniadau rheoli costau a monitro'r gyllideb;
- y cynnydd a wneir gyda rhaglenni arbed costau, a gallu'r Bwrdd Iechyd i wario o fewn ei derfynau adnoddau.

#### Mae angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio gwasanaeth, cynllunio gweithredol, cynllunio gweithlu a chynllunio ariannol

23. Mae fframwaith strategol pum mlynedd y Bwrdd Iechyd, a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2010, yn amlygu'r angen am arbedion o £344.6 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd.  Ar gyfer 2010-11, nodwyd arbedion o £79.3 miliwn yn y Cynllun Gweithredol terfynol, ond mae'n amlwg bod gan y Bwrdd Iechyd gryn dipyn i'w wneud o hyd i ddatblygu fframwaith cynllunio ariannol cadarn.

24. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod angen gwneud gwaith pellach i integreiddio cynlluniau gwasanaeth, cynlluniau gweithlu a chynlluniau ariannol, ac mae'n ceisio mynd i'r afael â hyn yng Nghynllun Gweithredol 2011-12. Yna bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ddangos sut y mae'r adnoddau a ddefnyddir yn y busnes yn cyflawni ei nodau gweithredol a strategol.

**Mae trefniadau monitro ac adrodd yn datblygu, ond mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod pob cynllun arbedion wedi'i danategu gan gynlluniau gweithredu cadarn ar gyfer cyflawni**

25. Yn ystod 2010-11, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cryn dipyn o waith i'w alluogi i lunio adroddiadau priodol i ategu'r ffurflenni monitro misol sy'n ofynnol gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal â chefnogi Llywodraeth y Cynulliad, mae'r wybodaeth a ddefnyddir i lunio'r adroddiad misol hefyd yn sylfaen i roi gwybod i'r Bwrdd am ei sefyllfa ariannol fisol a'r sefyllfa ariannol ragamcanedig ar gyfer diwedd y flwyddyn.

26. Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o gyflawni'r cynllun arbedion. Mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyllid ac mae hwn yn ddull da o graffu ar gynlluniau arbedion unigol a herio'r broses o gyflawni'r cynlluniau hynny. Er y gwneir cynnydd, mae nifer o risgiau'n gysylltiedig â chyflawni'r cynlluniau arbedion, sy'n cael eu rheoli a'u lliniaru. Mae angen cyflawni gwaith pellach i sicrhau bod pob cynllun arbedion wedi'i danategu gan gynlluniau gweithredu cadarn ar gyfer cyflawni.

**Gyda £28.4 miliwn ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, ar gyfer pwysau gweithredol yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn darogan y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond gwelir cryn bwysau ariannol yn y blynyddoedd i ddod**

27. Tan yn ddiweddar roedd y Bwrdd wedi bod yn rhagamcan diffyg o £28.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddwyd rhagor o arian bellach gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer pwysau gweithredol yn ystod y flwyddyn ac ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn rhagamcan y bydd yn mantoli'r gyllideb. Ceir nifer o risiau o hyd sy'n gysylltiedig â chyflawni cynlluniau arbedion 2010-11, er bod y rhain yn cael eu rheoli a'u lliniaru.

28. Er gwaethaf monitro a herio gan Grŵp y Cyfarwyddwyr Gweithredol a Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyllid y Bwrdd, mae'n amlwg na chaiff y lefelau o arbedion a ragamcanwyd yn wreiddiol ar gyfer 2010-11 eu cyflawni. Gan symud ymlaen, mae'r arian ychwanegol a natur anghylchol peth o arbedion 2010-11 yn golygu bod y Bwrdd Iechyd, ar hyn o bryd, yn disgwyl cario diffyg sylfaenol o £39.6 miliwn ymlaen i 2011-12. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei holl gynlluniau arbed ar gyfer y dyfodol yn cael eu dadansoddi'n gadarn fel bod lefelau arbed yn gyflawnadwy.

## Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i sicrhau eu bod yn darparu fframwaith sy'n llywio gwella

29. Mae safonau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd yn ofynion hanfodol wrth ddangos y gwarchodir arian cyhoeddus yn effeithiol ac y defnyddir adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae angen i fyrddau cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt 'fframwaith sicrwydd' effeithiol ar waith i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu ar berfformiad. Fel rhan o'r Asesiad Strwythuredig, mae archwilwyr wedi edrych ar drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Bwrdd Iechyd.

30. Deuthum i'r casgliad a nodwyd uchod o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol.

### Mae fframwaith strategol pum mlynedd y Bwrdd Iechyd yn nodi cyfeiriad strategol clir ac ategir hyn gan gynlluniau gweithredol a chynlluniau moderneiddio. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o wrthdaro rhwng cyflawni targedau arbedion a chyflawni amcanion corfforaethol

31. Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth sefydliadol glir a adlewyrchir drwy'r sefydliad. Pennwyd amcanion strategol clir sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, a cheir cysylltiadau clir rhwng y cynllun strategol a'i gynlluniau gweithredol ar lefel gorfforaethol, adrannol a chyfarwyddiaeth.

32. Mae'r strategaeth a'r cynlluniau gweithredol yn cynnwys targedau mesuradwy gyda chamau allweddol o ran sut y cyflawnir amcanion a bydd Fframwaith Sicrwydd arfaethedig y Bwrdd yn helpu i roi sicrwydd bod amcanion yn cael eu cyflawni.

33. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adnoddau a'r gallu sydd eu hangen i gyflawni'r strategaeth pum mlynedd, er bod y pwysau ariannol ar y Bwrdd Iechyd yn achosi rhywfaint o wrthdaro rhwng cyflawni amcanion a'r angen i wneud arbedion ariannol sylweddol.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu strwythur sefydliadol sy'n cefnogi'r broses o gyflawni ei amcanion strategol er ei fod yn cydnabod, 12 mis yn unig ar ôl sefydlu'r sefydliad newydd, bod angen gwneud mwy i roi'r sgiliau a'r adnoddau priodol i staff, gwella cyfathrebu ac egluro rolau a chyfrifoldebau

34. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu strwythur sefydliadol pyramidaidd arbennig a gynlluniwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol drwy ei ddwy gyfarwyddiaeth weithredol; y gyfarwyddiaeth iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol ac iechyd meddwl a'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau ysbytai acíwt, a ategir gan nifer o swyddogaethau galluogi corfforaethol.

35. Mae'r strwythur sefydliadol, a drafodwyd ac a gymeradwywyd gan y bwrdd, hefyd wedi'i gynllunio i gefnogi cyfathrebu fertigol a llorweddol. Mae systemau ar waith i gyfleu'r rolau a'r cyfrifoldebau o fewn y strwythur i staff, ond bu'r broses benodiadau yn araf mewn rhai rhannau o'r strwythur. Bydd y strwythur newydd

yn cymryd cryn amser i'w ymgorffori, ac o ganlyniad mae llawer o staff yn dal heb ddealltwriaeth glir o'r ffordd y mae'r strwythur yn gweithredu.

36. Mae'r ddwy adran weithredol wedi'u cysoni'n glir â'u ffocws perthnasol, er bod pryderon y gallai'r ddwy adran weithio mewn seilo, ac nid yw cydweithredu llawn ar draws yr wyth adran ar waith o hyd, er y cydnabyddir bod y ffocws diweddar ar y Cynllun Gaeaf wedi gweld rhywfaint o gydweithredu cadarnhaol ar draws yr adrannau. Mae'n amlwg bod mabwysiadu model triwriaeth, sy'n cynnwys clinigwr arweiniol, rheolwr a nyrs arweiniol ar lefel adrannol a chyfarwyddiaeth yn hyrwyddo cydweithredu rhwng staff rheoli, staff meddygol a staff nyrsio. Mae strwythur y Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo newid amlwg o strwythur traddodiadol a arweinir gan reolwyr a fu ar waith yn y sefydliadau rhagflaenol, i strwythur sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth glinigol ac ymgysylltu. Mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn mai'r sefyllfa bresennol yw ble y byddai'n disgwyl bod, ddim ond 12 mis ar ôl creu'r sefydliad newydd, ac ar hyn o bryd mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy i roi'r sgiliau a'r adnoddau priodol i'r swyddogion arweiniol er mwyn llywio'r busnes.

37. Cafwyd ymgysylltu agos â rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu strwythur y sefydliad a bydd datblygu'r strwythur ardal a chymdogaeth, gyda chymorth y Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, yn cefnogi gweithio effeithiol ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol a phartneriaid ehangach.

### Mae Bwrdd effeithiol ar waith o fewn Caerdydd a'r Fro a gefnogir gan amryw o bwyllgorau ac is-bwyllgorau er bod ffocws rhai o'r pwyllgorau yn destun adolygiad

38. Mae Bwrdd cryf yng Nghaerdydd a'r Fro gyda ffocws clir ar fusnes y sefydliad. Rhoddwyd strwythurau pwyllgor ar waith yn unol â fframwaith llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, er bod rhywfaint o ddyblygu ymdrech ar draws pwyllgorau ac mae ffocws rhai pwyllgorau'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gyda'r nod o gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2011.

39. Mae systemau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth allweddol a phenodwyd hyrwyddwyr a swyddogion arweiniol y Bwrdd yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad yn ogystal â rhai blaenoriaethau lleol.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu fframwaith ar gyfer rheoli risg a weithredir yn 2011 a gwnaed cynnydd da i hyrwyddo diwylliant sy'n agored i reoli risg a dysgu gwersi o ddigwyddiadau'r gorffennol

40. Ar ôl dechrau araf, cymeradwywyd polisi rheoli risg drafft yn ddiweddar gan y Pwyllgor Archwilio a bydd y Bwrdd yn ystyried Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ym mis Mawrth 2011. Mae'r fframwaith hwn yn sefydlu proses glir ar gyfer nodi a chofnodi risgiau corfforaethol a strategol drwy'r Cyfarwyddwr Llywodraethu ac mae asesiad risg diwygiedig a gweithdrefn cofrestr risg yn nodi'r mesurau ar gyfer categoreiddio risgiau'n glir, a chaiff y rhain eu gweithredu yn 2011.

41. Ceir ffocws clir ar reoli risg ar frig y sefydliad a atgyfnerthwyd drwy'r rhaglen datblygu arweinyddiaeth. Nawr mae angen rhaeadru'r rhaglen hon drwy'r sefydliad fel rhan o'r broses o roi gweithdrefnau rheoli risg ar waith, er bod trefniadau'n cael eu hatgyfnerthu eisoes i sicrhau bod risgiau'n cael eu cofnodi'n briodol ar lefel ward, cyfarwyddiaeth, adran a lefel gorfforaethol.

42. Yn ogystal bu ffocws gwirioneddol ar ddysgu gwersi drwy fentrau megis *Putting Things Right* a monitro ac archwilio cyfraddau marwolaethau sy'n hyrwyddo diwylliant agored.

43. Bydd y strwythurau ardal a chymdogaeth yn cefnogi'r broses o nodi risgiau mewn perthynas â phartneriaethau wrth i'r fframwaith rheoli risg diwygiedig gael ei ymgorffori ynghyd â'r strwythur sefydliadol. Mae trefniadau monitro ar waith, er bod angen eu profi er mwyn sicrhau y caiff risgiau eu cofnodi a'u monitro yn y fforwm priodol.

### Mae systemau rheolaeth fewnol priodol ar waith y gellid eu hatgyfnerthu drwy ganolbwyntio sylw'r Pwyllgor Archwilio ar feysydd o risg uwch ar ei agendâu a thrwy wella effeithiolrwydd y defnydd o adnoddau ar gyfer archwilio clinigol

44. Mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd yn bwyllgor effeithiol, a thros y 12 mis diwethaf bu'n mynd i'r afael â'i agenda, er bod angen adolygu ei ffocws yn unol â'r pwyllgorau eraill er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod yr amser a ddyrennir i'r pwyllgor yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

45. Mabwysiadwyd Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog GIG Cymru ac mae trefniadau ar waith i adolygu a monitro cydymffurfiaeth drwy'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu.

46. Mae Archwilio Mewnol yn darparu gwasanaeth boddhaol i'r Bwrdd Iechyd ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y GIG yng Nghymru. Caiff archwilio clinigol ei ystyried fel rhan sylfaenol o'r agenda ansawdd a diogelwch, er bod cynllunio a chyflawni hyd yma wedi bod yn seiliedig ar feysydd o ddiddordeb unigol a blaenoriaethau cenedlaethol blaenorol. Yn y dyfodol caiff adnoddau eu hailflaenoriaethu a'u defnyddio'n fwy effeithiol.

47. Ceir tystiolaeth o ddefnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd i gefnogi rheolaethau mewnol.

### Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau Rheoli Gwybodaeth cadarn ar y cyfan y gellid eu hatgyfnerthu drwy ailganolbwyntio craffu ac ailgyfeirio adnoddau i ategu'r gwaith o gyflawni'r cynllun gwybodeg

48. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull strategol clir o ran Gwybodeg, sy'n cwmpasu Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a Gwybodaeth, sy'n canolbwyntio ar sut y gellir defnyddio'r rhain i ddatblygu nodau corfforaethol y sefydliad. Ategir hyn gan drefniadau rheoli effeithiol gyda llinellau adrodd da i'r Bwrdd, er bod cylch gwaith y Cyfarwyddwr Cynllunio sy'n gyfrifol am wybodeg yn eang iawn, ac felly caiff Rheoli Gwybodaeth ei drosglwyddo i'r Cyfarwyddwr Arloesi a Gwella o 1 Ebrill 2011.

49. Mae trefniadau craffu ar waith sydd â'r potensial i fod yn effeithiol iawn, er bod angen iddynt gael gwell ffocws yn unol â'r adolygiad ehangach o bwyllgorau'r Bwrdd Iechyd. Mae nifer o bwyllgorau yn arolygu Gwybodeg ar hyn o bryd, yn cynnwys y Bwrdd, a gallai diffyg eglurdeb o ran rolau a chyfrifoldebau fod yn arwain at ddyblygu ymdrechion ac oedi o ran gwneud penderfyniadau. Ceir tystiolaeth o ddull gweithredu strategol cadarn o ran deddfwriaeth a diogelu data yn effeithiol, sef cyfrifoldeb y pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth.

50. Mae fframwaith ar waith i gefnogi blaenoriaethu a chyflawni prosiectau, er nad yw lefel yr arian ar gyfer diwallu anghenion gwybodeg y sefydliad yn ddigonol. Mae'n amlwg y gwneir defnydd da o wybodaeth, gydag ystod o fentrau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, er y gellid gwneud mwy i leihau nifer y systemau TG annibynnol.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu fframwaith rheoli perfformiad cadarn ar draws y sefydliad sy'n cefnogi monitro a chofnodi perfformiad ar bob lefel ac a danategwyd gan ffocws clir ar ansawdd data

51. Mae fframwaith rheoli perfformiad manwl ar waith ar draws y sefydliad, sydd wedi'i gysoni'n glir ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer adolygu a chofnodi perfformiad ac yn hyrwyddo diwylliant o asesu perfformiad mewn modd agored ac onest ar bob lefel a adlewyrchir drwy'r sefydliad.

52. Er bod adroddiad perfformiad y Bwrdd yn cynnwys rhai metricsau ar gyfer gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod bwlch yn y maes hwn, ac mae fframwaith gwybodaeth mwy cynhwysfawr ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

53. Mae ansawdd data yn flaenoriaeth uchel i'r Bwrdd Iechyd, ac mae trefniadau ar waith er mwyn gallu rhoi sicrwydd o ran ansawdd ei ddata perfformiad drwy drefniadau codio clinigol, rheolaethau cofnodi perfformiad canolog a gwiriadau ansawdd data rheolaidd a atgyfnerthwyd.

54. Rydym wedi nodi'r fframwaith perfformiad gyda'r Bwrdd Iechyd fel maes y gallai'r Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru ddymuno ei ystyried.

### Gan adeiladu ar waith y sefydliadau rhagflaenol, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith er mwyn hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth iddo weithredu ei fusnes

55. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y codau ymddygiad a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill yn cael eu diweddaru a'u gweithredu i adlewyrchu'r sefydliad newydd. Gyda thua 400 o bolisïau wedi'u trosglwyddo o'r cyrff rhagflaenol, bydd y broses hon yn cymryd cryn dipyn o amser.

56. Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo diwylliant agored o ran twyll, ac mae trefniadau gwrth-dwyll digonol ar waith. Darperir gwasanaethau gwrth-dwyll yn fewnol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ac maent yn cynnal amryw o weithgareddau ataliol ac ymatebol, yn cynnwys rhoi cyflwyniadau ymwybyddiaeth o dwyll i staff. Mae'r swyddogaeth gwrth-dwyll yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth atgyfnerthu 'ffactorau galluogi' pwysig sy'n gallu bod o gymorth o ran gwneud defnydd mwy effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau

57. Mae prosesau rheoli cadarn mewn perthynas ag adnoddau allweddol, megis pobl ac asedau, yn rhan hanfodol o'r gwaith o sicrhau gwerth da am arian. Mae angen i gynlluniau datblygu gwasanaethau ac arbed costau gael eu hategu gan waith effeithiol o ran cynllunio'r gweithlu, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi fy nghanfyddiadau yn y meysydd canlynol:

- trefniadau cynllunio'r gweithlu;
- caffael;
- rheoli asedau;
- gweithio gyda sefydliadau partner;
- ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud dechrau da ar wella cynllunio'r gweithlu drwy osod y seiliau sydd eu hangen arno ar gyfer persbectif strategol clir, a danategwyd gan wybodaeth dda, ac ymgysylltu â staff a sicrhau eu bod yn deall y materion hyn

58. Gwnaed gwaith sylweddol yn ystod y flwyddyn gyntaf i osod seiliau ar gyfer trefniadau cynllunio gweithlu mwy effeithiol. Mae'r fframwaith yn cynnwys Grŵp Datblygiad Strategol y Gweithlu, gydag aelodaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr llywodraeth leol a'r trydydd sector. Sefydlwyd Cynllun Gweithlu Strategol a Chynllun Gweithredu, ac mae Bwrdd Gwybodaeth Gweithlu'n cael ei sefydlu yn unol â gofynion cenedlaethol.

59. Mae'r broses o ddatblygu a deall gwybodaeth gweithlu yn datblygu a disgwylir iddi wella ymhellach dros amser wrth i gydberthnasau rhwng y swyddogaeth gorfforaethol a'r adrannau aeddfedu. Y Bwrdd Iechyd yw'r unig un yng Nghymru sydd â darlun cywir amser real o'r sefydliad. Mae gwybodaeth yn dangos pob swydd newydd a ariannwyd.

60. Mae cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu yn flaenoriaethau lefel uchel, er bod angen cyflymu'r cynnydd a wneir i wireddu manteision gwneud y defnydd gorau o staff y bwrdd iechyd, er enghraifft clinigwyr. Ceir barn y bydd angen cysylltu costau cyflogau â'r hyn a gyflawnir yn y dyfodol, ac mae'n bosibl y gellid defnyddio'r dull costio lefel cleifion i gyflawni hyn.

### Bydd asedau cyfalaf yn chwarae rhan hanfodol o ran cyflawni cynllun strategol pum mlynedd y Bwrdd Iechyd, a chymerir camau clir i sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o'r asedau hyn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol

61. Er nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi ffurfioli ei strategaeth ystadau integredig ei hun hyd yma, rhoddir sylw amlwg i'r defnydd o'i asedau yn ei gynllun strategol pum mlynedd, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gael budd o hyd o fuddsoddiad cyfalaf canolog sylweddol i helpu i symleiddio a moderneiddio ei gyfleusterau, er nad oes sicrwydd o ran lefel yr arian mae'r Bwrdd Iechyd yn debygol o'i gael.

62. Mae trefniadau clir yn llywodraethu'r gwaith o reoli swyddogaethau asedau ac ystadau. Y Cyfarwyddwr Cynllunio sy'n gyfrifol am reoli asedau ac ystadau'r Bwrdd Iechyd, a'r Pwyllgor Cynllunio Strategol sy'n gyfrifol am drefniadau craffu ar gyfer penderfyniadau rheoli asedau ar ran y Bwrdd.

63. Drwy'r strwythur ardal o fewn yr adran sylfaenol a chymunedol, ceir trafodaethau cynnar o ran cynllunio asedau ar y cyd gyda phartneriaid sector cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o holl adnoddau'r ystad, sy'n arfer da.

64. Er ei fod wedi'i gynnwys yn y fframwaith rheoli perfformiad ac atebolrwydd, prin yw'r dystiolaeth a ganfuwyd gennym o reoli perfformiad asedau cyfalaf y Bwrdd Iechyd. Mae'n galonogol gweld bod y Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y bwlch hwn, ac mae'n meincnodi ei wasanaeth ystadau ar hyn o bryd gan ddefnyddio cronfa ddata meincnodi CIPFA. Cyflwynir adroddiad ar berfformiad ystadau i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2011.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod nad oedd gan ei drefniadau caffael y cyfeiriad, yr adnoddau a'r dylanwad i sicrhau y gellid gwireddu'r buddiannau yn llawn ac mae'n rhoi cynlluniau ar waith i wella'r maes hwn o'r busnes

65. Mae'r swyddogaeth gaffael mewn safle da yn y strwythur sefydliadol, ond ceir diffyg strategaeth weithredol neu gynllun gweithredu cytunedig i helpu i hyrwyddo'r gwasanaeth hwn neu atgyfnerthu ei rôl. Penodwyd swyddog caffael arweiniol interim a rennir gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf ym mis Hydref 2010 sy'n uniongyrchol atebol i'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae'r swyddog arweiniol interim wedi cydnabod bod angen cynyddu dylanwad y swyddogaeth gaffael, ac o ganlyniad mae bellach wedi gorffen drafft cyntaf y Strategaeth.

66. Mae cyfran fawr o'r staff yn ymwneud â gweithgareddau caffael 'nad ydynt yn rhai craidd', ac roedd lefel uchel o swyddi gwag, h.y. 20 y cant o fewn elfen 'graidd' Caffael. Mae hyn wedi cyfyngu gallu'r gwasanaeth i ddatblygu a chyflawni yn erbyn ei broffil a'i weithgareddau. Awgryma hyn fod y gwasanaeth yn ceisio cynnal gweithgareddau hanfodol ar y lefelau presennol, ond nid ydynt yn gallu datblygu cwmpas gwasanaethau ymhellach. Datblygwyd a chymeradwywyd strwythur caffael newydd, a allai arwain at lenwi'r swyddi gwag hyn.

67. Ystyriwyd fod y rhaglen lleihau costau wreiddiol ar gyfer 2010-11 a gyflwynwyd gan y tîm Caffael yn afrealistig ac yn amhosibl i'w chyflawni. Oherwydd yr amgylchiadau uchod, mae'r Pennaeth Caffael Interim wedi diwygio hyn bellach, er mwyn cyflwyno ffigur mwy realistig y gellir ei gyflawni.

### Ar ôl dechrau araf, ceir mwy o eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, cydnabyddiaeth eglur o'u pwysigrwydd o lefel y Prif Weithredwr i lawr, a chynnydd ar agweddau gwahanol ar weithio mewn partneriaeth

68. Trefnodd y Prif Weithredwr uwch gynhadledd o asiantaethau partner, gan ddangos pwysigrwydd cydberthnasau allanol i'r Bwrdd Iechyd. Sefydlwyd strwythurau a rolau mewnol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, yn cynnwys rôl rheolwr ardal yn y Fro a benodwyd ar y cyd â'r awdurdod lleol. Diffiniwyd y

Gyfarwyddiaeth Gynllunio fel yr arweinydd ar gyfer partneriaethau corfforaethol, ynghyd â Chyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, gyda'r cyfarwyddiaethau gweithredol yn gyfrifol am bartneriaethau darparu gwasanaethau.

69. Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, a arweinir gan y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl i gefnogi'r broses o gyflawni'r cynllun gweithredol o ran agweddau sy'n rhychwantu cylch gwaith iechyd a rhanddeiliaid eraill. Cefnogir hyn gan y gwaith o ddatblygu model ardal cymdogaeth, sy'n cysoni cyflawni gwasanaethau iechyd â chyflawni gwasanaethau cymdeithasol ac yn dod ag iechyd i mewn i'r proffil cymdogaeth. Dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd y trefniadau hyn a bydd yn cymryd amser i'w hymgorffori.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'r ffocws ar ymgysylltu â'r gymuned a chleifion a bu wrthi'n rhoi'r strwythurau a'r prosesau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r materion cysylltiedig

70. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi i rai o'r rolau allweddol ym maes ymgysylltu â'r gymuned a chleifion, ac mae hyn yn creu mwy o ffocws ar y materion nag a gafwyd yn flaenorol. Cymeradwywyd fframwaith Cyfathrebu ac Ymgysylltu ac mae Strategaeth Adborth Cleifion yn cael ei datblygu.

71. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth osod y seiliau i sicrhau bod fframwaith cadarn ar waith ar gyfer casglu barn cleifion ar wasanaethau. Defnyddir arolygon, straeon cleifion a ffynonellau adborth eraill fel ffynonellau gwybodaeth allweddol. Cafwyd arolwg o weithgarwch profiad cleifion ym mhob cyfarwyddiaeth.

## Mae gwaith archwilio perfformiad wedi nodi trefniadau derbyniol o ran rheoli rhestrau aros a gwasanaethau arlwyo, gydag elfennau o arfer da, ac er gwaethaf rhai gwelliannau, mae angen gwneud mwy i wella gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion

72. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn dwyn ynghyd y canfyddiadau o waith archwilio perfformiad a edrychodd ar feysydd darparu gwasanaethau penodol o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'n crynhoi canfyddiadau gwaith a wnaed ar y canlynol:

- cywirdeb data'r rhestr aros;
- gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion;
- arlwyo mewn ysbytai.

### Canfuwyd gennym fod cywirdeb data rhestrau aros y Bwrdd Iechyd a'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer cofnodi ac adrodd ar y data hwn yn dderbyniol

73. Yn 2007, cynhaliwyd adolygiad i roi sicrwydd annibynnol fod y ffigurau rhestrau aros a gofnodwyd gan ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn gywir. Ni nodwyd unrhyw achosion o gam-gofnodi gwybodaeth am restrau aros yn fwriadol gennym. Fodd bynnag, mewn saith o'r 12 ymddiriedolaeth a adolygwyd gennym, nodwyd rhai pryderon, neu bryderon difrifol, ynglŷn ag agweddau ar reoli rhestrau aros a allai arwain at ddata gwallus. Oherwydd y pryderon a

godwyd gennym yn 2007, a'r heriau newydd a gyflwynwyd gan y targed Atgyfeirio i gael Triniaeth, gwnaethom ail-ystyried p'un a oes gan fyrddau iechyd yng Nghymru y trefniadau rheoli angenrheidiol ar waith i gynhyrchu data cadarn am restrau aros.

74. Ar gyfer y Bwrdd Iechyd, canfuwyd gennym fod cywirdeb data rhestrau aros a'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer cofnodi ac adrodd ar y data hwn yn dderbyniol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae cywirdeb data rhestrau aros yn dderbyniol, er i ni nodi rhai mân wallau data:
  - ni chanfuwyd unrhyw anghysondebau rhwng gwybodaeth atgyfeirio meddygon teulu a chofnodion y Bwrdd Iechyd;
  - canfuwyd rhai gwallau wrth groeswirio systemau gweinyddol cleifion, nodiadau achosion a chanllawiau ar Atgyfeirio i gael Triniaeth.
- Mae trefniadau derbyniol ar gyfer cofnodi ac adrodd ar ddata rhestrau aros ar waith, er bod rhai meysydd sydd angen sylw:
  - mae atebolrwydd wedi'i ddiffinio'n glir ond mae rhywfaint o le i atgyfnerthu'r dasg o gymhwyso'r trefniadau hyn;
  - mae trefniadau derbyniol ar waith ar gyfer parodrwydd i weithredu'r trefniadau Atgyfeirio i gael Triniaeth;
  - ar adeg ein harchwiliad, roedd gan y Bwrdd Iechyd bolisi rhestrau aros wedi'i ddiweddaru, er nad oedd yr arferion gwaith newydd wedi'u hymgorffori'n llawn eto;
  - ar y cyfan mae effeithiolrwydd gweithdrefnau, prosesau a systemau TG y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â rheoli data rhestrau aros yn gadarn;
  - bu'r Bwrdd Iechyd wrthi'n dilysu ei ddata rhestrau aros, ond canolbwyntiwyd ar wirio ansawdd data lle bo cleifion yn agos i dorri'r targed 26 wythnos ar gyfer Atgyfeirio i gael Triniaeth.

### Er bod gwelliannau pwysig wedi bod ym maes gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion ers 2005, ceir bylchau annerbyniol o hyd mewn gwasanaethau a thystiolaeth o anghydraddoldebau ymhob rhan o'r gymuned iechyd

75. Yn 2005, gofynnodd Llywodraeth y Cynulliad i'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru gynnal adolygiad sylfaenol o wasanaethau iechyd meddwl i oedolion o oedran gweithio. Diben yr adolygiad oedd llywio'r broses o weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, a gweithredu fel meincnod i fesur cynnydd yn y dyfodol. Ategwyd adroddiad ar gyfer Cymru gyfan, a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Hydref 2005, gan 22 o adroddiadau lleol, sy'n cwmpasu gwasanaethau yn ardal pob Bwrdd Iechyd Lleol ac awdurdod lleol.

76. Er mwyn asesu graddau a chysondeb gwelliant rydym wedi cynnal gwaith dilynol i'n hadolygiad sylfaenol yn 2005. Mae'r adolygiad dilynol unwaith eto'n cwmpasu gwasanaethau'r GIG ac awdurdodau lleol, ond rydym wedi seilio'r adroddiadau ar ardaloedd newydd y Byrddau Iechyd.

77. Mae'r adolygiad dilynol wedi canolbwyntio ar chwe mater allweddol a gafodd eu nodi'n broblemau cyffredin ledled Cymru gan yr adolygiad sylfaenol. Ni wnaethom edrych ar feysydd gwasanaeth lle y cynlluniwyd adolygiadau mawr eraill neu lle roeddent yn mynd rhagddynt, megis yr adolygiad o'r broses

cynllunio gofal. Mae'r materion a ddewiswyd gennym yn bwysig i lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad.

78. Yn erbyn pob un o'r chwe mater hwn, aethom ati i bennu a fu gwelliant sylweddol ers yr adolygiad sylfaenol. O ran Caerdydd a'r Fro, daethom i'r casgliad, er y cymerwyd rhai camau pwysig, y bu'r cynnydd o ran datblygu gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion yn araf ers 2005, ac mae gan y gymuned iechyd ffordd bell i fynd i ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl cynhwysfawr sy'n bodloni safonau cenedlaethol. Ar gyfer pob un o'r chwe mater, daethom i'r casgliad canlynol:

- er bod gwariant y GIG ar iechyd meddwl oedolion wedi cynyddu, mae gwariant ar Wasanaethau Cymdeithasol wedi lleihau, ni fu arian ar gael i gefnogi datblygu gwasanaethau allweddol a bu gwendidau o ran trefniadau cynllunio;
- er gwaethaf rhai gwelliannau mae gwasanaethau iechyd meddwl ym maes gofal sylfaenol yn dal yn rhy amrywiol, a cheir diffyg cymorth cynhwysfawr i bractisau meddygon teulu a diffyg cyswllt â hwy;
- ceir tystiolaeth o newid o wasanaethau cleifion mewnol i wasanaethau cymunedol, ond ceir bylchau allweddol yn y ddarpariaeth o wasanaethau, ni chydymffurfir â chanllawiau cenedlaethol ac mae tensiynau'n bodoli rhwng timau cymunedol;
- nid oes unrhyw gynllun ar gyfer gweithredu model gofal haenog, ni fu unrhyw welliant sylweddol o ran mynediad i therapïau seicolegol, ac mae amseroedd aros hir yn parhau ym maes gofal eilaidd;
- nid yw polisïau ac arferion tai yn cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl yn effeithiol o hyd, a phrin fu'r cynnydd tuag at gyflawni'r targedau ar gyfer gwasanaethau tai a nodir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol;
- nid yw darparwyr gwasanaethau yn dal yn rhoi cymorth digonol i ddefnyddwyr gwasanaethau nac yn eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a rheoli eu gofal.

**Er bod trefniadau arlwyo'r Bwrdd Iechyd yn dangos llawer o elfennau o arfer da, ni chânt eu cymhwyso'n gyson o fewn ac ar draws ysbytai. Mae'r anghysondeb hwn yn deillio o ganlyniad i gyfathrebu gwael rhwng y grwpiau staff gwahanol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, a all effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir**

79. Penderfynodd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'n amserol cynnal gwaith archwilio pellach ar arlwyo mewn ysbytai i adolygu cynnydd ers y cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2001-02, ac i archwilio'r graddau y caiff arferion a nodwyd yn y Llwybr Gofal Maethol i Ysbytai eu hymgorffori.

80. Nod ein hadolygiad oedd canfod a oedd ysbytai yng Nghymru yn darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon a oedd yn cydymffurfio ag arfer da cydnabyddedig. Edrychodd ein gwaith archwilio ar drefniadau ymhob rhan o'r 'gadwyn fwyd' arlwyo mewn ysbytai o gynllunio a chaffael i gludo bwyd i'r ward a rheoli amseroedd prydau bwyd.

81. Ein casgliad cyffredinol yw, er bod trefniadau arlwyo'r Bwrdd Iechyd yn dangos llawer o elfennau o arfer da, nad yw'r rhain wedi'u cymhwyso'n gyson o fewn ac ar draws ysbytai. Mae'r anghysondeb hwn yn deillio o ganlyniad i gyfathrebu gwael rhwng y grwpiau staff gwahanol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, a all effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r gwaith o gynllunio'r gwasanaethau arlwyo yn effeithiol, ond gellid ei atgyfnerthu drwy graffu cadarnach gan y Bwrdd;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn caffael bwyd yn effeithiol ac mae'n dda ar y cyfan o ran rheoli cost cynhyrchu bwyd ac arlwyo, ond mae'n gwastraffu llawer gormod o fwyd mewn rhai ardaloedd;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu bwyd o ansawdd da i gleifion, er y gallai newid rhai o'r arferion presennol a gwella cyfathrebu rhwng staff mewn rhai ardaloedd wella profiad y claf;
- mae rhai wardiau yn well nag eraill o ran sicrhau bod arlwyo a maeth yn cefnogi adferiad cleifion, gydag un ward yn methu â chyflawni perfformiad derbyniol o bell ffordd;
- mae boddhad cleifion ag arlwyo mewn ysbytai yn gymharol isel, ac am nad yw'n rhannu barn y cleifion a gesglir rhwng grwpiau o staff, mae'r Bwrdd Iechyd yn colli cyfle i ddysgu a gwella.

82. Wrth ddod i'r casgliadau hyn, gwnaethom nodi nifer o gryfderau allweddol o fewn y gwasanaeth arlwyo a'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ei wasanaethau. Ymhlith y rhain roedd y canlynol:

- tanategir y gwasanaeth gan strategaethau a pholisïau cadarn a ddatblygwyd gyda mewnbwn gan bob un o'r grwpiau staff priodol;
- mae deietegwyr yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o gynllunio bwydlenni ac asesu cynnwys maethegol y ryseitiau safonol wedi'u costio a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd;
- mae'r trefniadau cynhyrchu a chludo bwyd yn golygu bod prydau bwyd yn cyrraedd y wardiau mewn cyflwr da, ac yn parhau felly wrth i'r bwyd gael ei weini;
- mae'r trefniadau arlwyo sy'n seiliedig ar wardiau yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn hyblyg ac yn cefnogi dewis i gleifion;
- ceir tystiolaeth bod yr arfer o sgrinio cleifion yn faethegol wrth eu derbyn i'r ysbyty wedi'i ymgorffori'n dda, a chaiff cymeriant bwyd a diod ei fonitro gan ddefnyddio offerynnau nyrsio priodol;
- caiff cynlluniau gofal maethegol eu cynhyrchu ar gyfer cleifion sydd eu hangen, ac mae systemau ar waith i helpu i nodi'r cleifion sydd angen cymorth wrth fwyta ac sydd ag anghenion maethegol penodol;
- cofnododd cleifion lefelau cymharol uchel o foddhad â'r gwasanaeth bwyd ac arlwyo yn Ysbyty Athrofaol Llandochau.

83. Ceir nifer o feysydd allweddol y gellid eu gwella, yn cynnwys:

- Roedd y lefelau uchel o wastraff bwyd a gofnodwyd yn ystod yr archwiliad yn peri gofid mawr, ac mewn dwy ward yr ymwelwyd â hwy, cafodd tua 75 y cant o'r bwyd a ddarparwyd i'r ward ei wastraff, naill ai fel prydau bwyd nas gweinwyd neu fel gwastraff a adawyd ar blatiau. Mae'r gwastraff hwn yn dangos bod cyfle sylweddol i sefydlu prosesau mwy effeithiol o ran archebu prydau bwyd a rheoli maint dognau.
- Nid yw llawer o wardiau wedi mabwysiadu'r arfer o ddiogelu amseroedd prydau bwyd o hyd.
- Mewn rhai wardiau gellir gwneud mwy i baratoi amgylchedd y wardiau ar gyfer prydau bwyd er mwyn ei gwneud yn fwy cydnaws â mwynhau bwyd.

- Mae angen adolygu hyfforddiant ar gyfer arlwywyr sy'n gweithio ar wardiau er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o faeth a'r prosesau a roddwyd ar waith gan y Bwrdd Iechyd i ddiwallu anghenion maethegol unigol cleifion.
- Mae angen adolygu trefniadau ar gyfer cyflenwi prydau bwyd i gleifion yn Ysbyty Athrofaol Llandochau er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y prydau cywir bob tro.
- Er bod arfer da cydnabyddedig ar waith megis defnyddio hambyrddau coch i nodi cleifion sydd ag anghenion deietegol penodol, ni chaiff ei gymhwyso'n gyson ar draws wardiau.
- Mae gan staff arlwyo a staff nyrsio drefniadau ar wahân ar gyfer casglu barn cleifion ar y gwasanaeth arlwyo, ac ni ddatblygwyd systemau ar gyfer casglu'r wybodaeth hon ynghyd er mwyn rhoi darlun cyfannol i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau.
- Er bod Ysbyty Athrofaol Cymru yn dangos llawer o elfennau o arfer da cydnabyddedig, dangosodd ein harolygon bod boddhad cleifion â bwyd ysbytai ar y safle hwn yn gymharol isel, a bod angen gwneud mwy o waith i ddeall y rhesymau am hyn yn llawn.

## Atodiad 1

# Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy llythyr archwilio blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau Archwilio Ariannol** | |
| Adroddiad i'r rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu | Mehefin 2010 |
| Adroddiad ar y cyfrifon ariannol | Gorffennaf 2010 |
| Cronfeydd a ddelir ar Ymddiriedaeth - Adroddiad i'r rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu | Tachwedd 2010 |
| **Adroddiadau Archwilio Perfformiad** | |
| Ansawdd data rhestrau aros | Mehefin 2010 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion | Hydref 2010 |
| Arlwyo mewn Ysbytai | Tachwedd 2010 |
| Asesiad strwythuredig | Mawrth 2011 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Strategaeth Archwilio | Ebrill 2010 |
| Llythyr archwilio blynyddol interim 2009-10 i gyrff rhagflaenol | Mehefin 2010 |
| Adroddiad Archwilio Blynyddol | Ionawr 2011 |

## Atodiad 2

# Ffi archwilio

Nododd y Strategaeth Archwilio ar gyfer 2010 ffi archwilio arfaethedig o £439,460 (ac eithrio TAW). Mae'r tabl isod yn nodi fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd.

**Dadansoddiad o ffi archwilio arfaethedig a ffi archwilio wirioneddol 2010**

| Maes y cod | Y ffi arfaethedig (£) | Ffi wirioneddol amcangyfrifedig (£) |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon | 264,628 | 264,628 |
| Archwilio perfformiad | 174,832 | 174,832 |
| **Cyfanswm** | **439,460** | **439,460** |

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, roedd y ffi am y gwaith archwilio a wnaed o ran y gwasanaethau a rennir a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn £14,966.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: wales@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk